## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A487 (TREFDRAETH, SIR BENFRO) (GWAHARDD CERBYDAU, BEICWYR A CHERDDWYR DROS DRO) 2024

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A487 neu gerllaw iddi yn Nhrefdraeth, Sir Benfro.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd, beiciwr a cherddwr rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A487 yn Nhrefdraeth sy'n ymestyn o'i chyffordd â Parrog Road hyd at ei chyffordd â Market Street.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r dwyrain fydd mynd ar yr A487 tua'r gorllewin i Abergwaun, yr A40 tua'r de i Hwlffordd, yr A40 tua'r dwyrain i Gylchfan Penblewin a'r A478 tua'r gogledd i Aberteifi er mwyn ailymuno â'r A487: i'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gorllewin.

Y llwybr arall ar gyfer cerddwyr sy'n teithio tua'r dwyrain fydd mynd ar hyd Parrog Road am oddeutu 160 o fetrau, yna'r lôn i Faesingli, y lôn rhwng Maesingli a maes parcio Long Street, i Long Street a pharhau hyd at yr A487 Bridge Street: i'r gwrthwyneb ar gyfer cerddwyr sy'n teithio tua'r gorllewin.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 16 Medi 2024. Disgwylir y bydd y gwaharddiadau dros dro yn weithredol yn ysbeidiol o 20:00 o'r gloch ar 16 Medi 2024 am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf. Bydd hysbysiad am yr holl waith a wneir yn ystod y cyfnod hwn yn cael ei arddangos cyn iddo ddechrau.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## THE A487 TRUNK ROAD (NEWPORT, PEMBROKESHIRE) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES, CYCLISTS & PEDESTRIANS) ORDER 2024

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A487 trunk road at Newport, Pembrokeshire.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles, cyclists and pedestrians, from proceeding on the length of the A487 trunk road at Newport that extends from its junction with Parrog Road to its junction with Market Street.

The alternative route for eastbound vehicles is via the westbound A487 to Fishguard, southbound A40 to Haverfordwest, eastbound A40 to Penblewin Roundabout and the northbound A478 to Cardigan to re-join the A487: vice versa for westbound vehicles.

The alternative route for eastbound pedestrians is via Parrog Road for approximately 160 metres, then the lane onto Maesingli, the lane between Maesingli and Long Street car park, onto Long Street and continue to the A487 Bridge Street: vice versa for westbound pedestrians.

The Order comes into force on 16 September 2024. The temporary prohibitions are expected to operate intermittently from 20:00 hours on 16 September 2024 for a maximum duration of 18 months. Notice of all works being undertaken during this period will be displayed prior to their commencement.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government